



Barnwriaeth y Tribiwnlysoedd

CYFARWYDDYD YMARFER TRIBIWNLYS HAEN GYNTAF AC UWCH DRIBIWNLYS DEFNYDDIO'R GYMRAEG MEWN TRIBIWNLYSOEDD YNG NGHYMRU

CYFFREDINOL

1. Diben y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn yw adlewyrchu egwyddor Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, sef y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gydradd wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru.
2. Yn y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn, golyga "Achos Cymraeg" achos sydd gerbron Tribiwnlys lle mae'r holl "bartïon unigol" yn byw yng Nghymru neu achos sydd wedi'i bennu yn achos Cymraeg gan y Tribiwnlys. Mae "parti unigol" yn barti ar wahân i Adran neu Asiantaeth y Llywodraeth. Lle nad yw'r holl "bartïon unigol" yn byw yng Nghymru, bydd y Tribiwnlys yn penderfynu p'un ai a ddylai'r achos gael ei bennu'n achos Cymraeg ai peidio.

DEFNYDD O'R GYMRAEG

3. Mewn achos Cymraeg, caiff unrhyw barti neu dystion ddefnyddio'r Gymraeg a cheir cyflwyno unrhyw ddogfen yn Gymraeg gerbron y Tribiwnlys neu (yn amodol ar y darpariaethau rhestru isod) mewn unrhyw wrandawriad.

RHESTRU

4. Onid yw'n ymarferol bosibl gwneud hynny, mae'n rhaid i barti, neu ei gynrychiolydd, roi gwybod i'r Tribiwnlys 21 diwrnod cyn unrhyw wrandawriad mewn achos Cymraeg y defnyddir y Gymraeg gan y parti, ei gynrychiolydd, unrhyw dyst a enwir gan y parti hwnnw neu mewn unrhyw ddogfen a gaiff ei chyflwyno gan y parti.
5. Lle ceir achos apêl yn yr Uwch Dribiwnlys ac y defnyddiwyd y Gymraeg yn y Tribiwnlys isod, rhaid i Reolwr y Tribiwnlys wneud trefniadau i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr achos gerbron yr Uwch Dribiwnlys.
6. Lle bo hynny'n ymarferol, rhaid i wrandawriad lle defnyddir y Gymraeg gael ei restru gerbron Tribiwnlys sy'n medru'r Gymraeg, ac, os oes angen cyfleusterau cyfieithu, mewn lleoliad lle mae cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael.

CYFIEITHWYR

7. Lle bynnag mae angen cyfieithydd i gyfieithu tystiolaeth o'r Saesneg i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg i'r Saesneg, bydd Rheolwr y Tribiwnlys y gwrandewir yr achos yn ei dribiwnlys yn cymryd camau i sicrhau bod cyfieithydd ar y pryd yn bresennol sydd â'i enw ar y rhestr o gyfieithwyr ar y pryd cymeradwy.

TYSTION

8. Pan fydd yn rhaid i dyst mewn achos lle defnyddir y Gymraeg roi tystiolaeth neu dyngu llw neu gadarnhau, rhaid i'r Tribiwnlys roi gwybod i'r tyst y gallant dyngu llw neu gadarnhau yn Gymraeg neu'n Saesneg fel y mynnant.
9. Lluniwyd y Cyfarwyddyd Ymarfer hwn gan Uwch Lywydd y Tribiwnlysoedd gyda chydsyniad yr Arglwydd Ganghellor. Caiff ei wneud drwy ymarfer y pwerau a roddir dan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007.

**YR ARGLWYDD USTUS CARNWATH
UWCH LYWYDD TRIBIWNLYSOEDD
30 Hydref 2008**